Casglais mai'r risg optimistiaeth oedd y risg fwyaf. Risg yw hon o fod yn rhy optimistaidd mewn perthynas â chyflawni'r rhaglen arbedion. Mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer arbedion, amcangyfrifwyd:-

- Bod oddeutu hanner ohonynt yn seiliedig ar benderfyniadau a wnaed eisoes neu sydd eisoes yn cael eu cyflawni neu lle mae yna record dda sy'n rhoi lefel uchel o hyder y cânt eu cyflawni;
- Mae oddeutu traean yn dibynnu ar benderfyniadau sydd eto i'w gwneud oherwydd bod angen cwblhau ymgynghori neu bod angen gwerthuso opsiynau ond a ddylai, ar yr amod y caiff y rheini eu setlo, fod yn gyraeddadwy.
- Mae'r un rhan o chwech sydd ar ôl yn seiliedig ar dargedau sydd wedi cael eu derbyn yn fewnol ond lle nad oes cynllun cyflawn ar gyfer eu cyflawni.

I liniaru risgiau o'r fath yn rhannol, dylid gorgynllunio arbedion, bod yn barod i ddwyn ymlaen i 2011-12 y cynllun arbedion ar gyfer y blynyddoedd nesaf a chadw'r pwysau i fyny trwy gydol y flwyddyn ariannol i gyflawni mwy o arbedion.

Tynnais sylw hefyd at y risg y bydd angen i'r awdurdod, oherwydd nad yw wedi cwblhau ei adolygiad o gyflogau a graddfeydd a'r ffaith bod ganddo eisoes nifer o hawliadau cyflog cyfartal yn y Tribiwnlys Cyflogaeth, efallai bydd angen i'r Cyngor dalu iawndal i staff oherwydd annhegwch honedig ei drefniadau talu. Disgwylir i'r cynigion diwygiedig y rhoddir sylw iddynt gan y Panel Tâl a Graddfeydd leihau'r costau disgwyliedig ond efallai y bydd risg o fwy o hawliadau er bod y risgiau i'r awdurdod ym mhob senario wedi cael eu hasesu'n ofalus gan y Panel. Mae hon yn risg hirymaros fydd ddim yn mynd i ffwrdd ac mae'n herio cadernid y gyllideb fel yn y gorffennol. I liniaru hyn, erys cyllideb wrth gefn flynyddol o £0.9 miliwn tuag at gost y strwythur tâl newydd a chronfa wrth gefn gronedig a fydd, fe ragamcenir, erbyn Mawrth 2011 yn bron i £3m.

Wrth edrych i'r tymor canol, mae risg i'r awdurdod o amodau economaidd cenedlaethol. Gall chwyddiant sy'n cael effaith ar dâl a phrisiau effeithio ar yr hyn y gellir ei fforddio o fewn y cyfansymiau cyllid arwyddol a gyhoeddwyd gan LlCC. Gall dirywio pellach yn yr economi fygwth y cyfansymiau gwario hynny. Mewn sefyllfa lle nad yw'r bwlch cyllidebol wedi ei bontio ar gyfer 2012-13 a 2013-14, mae rhagolygon o ddirywiad yn golygu bod angen gorgynllunio a gorgyflawni arbedion.

Mae'r gyllideb refeniw yn Nhabl A yn cynnwys swm sydd heb ei ddyrannu sy'n ffigwr net o gyllidebau positif a wrthbwyswyd gan arbedion a ragamcenir sydd heb eu dyrannu hyd yma i gyllidebau penodol. Gwyddys bod galwadau ar y swm hwn sydd heb ei ddyrannu, ond nid oes modd mesur y rheini'n ddigon da hyd yma i neilltuo cyllideb benodol. Mae peth ansicrwydd yma ond mae'r ffaith bod y ffigwr net yn swm positif yn lliniaru rhywfaint ar y sefyllfa. Gostyngwyd y lliniariad hwn gan benderfyniad y Pwyllgor Gwaith i ostwng ei gynnydd arfaethedig yn y Dreth Gyngor.

## 3. DIGONOLRWYDD Y CRONFEYDD ARIANNOL WRTH GEFN

Dan adran 25 (1)(b) y Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n rhaid i mi gyflwyno adroddiad i'r Cyngor ar ddigonolrwydd yr arian wrth gefn. Yn ffurfiol mae hyn yn ymwneud ag arian wrth gefn ar gychwyn ac ar ddiwedd flwyddyn ariannol yn y gyllideb. Unwaith eto, mae Prif Weithredwr CIPFA wedi ein hatgoffa o hyn ac wedi dwyn sylw at y canllawiau proffesiynol ym Mwletin 77 y Panel Cyfrifeg Awdurdodau Lleol.

